Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## MyDentist, Bridgend Orthodontics, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-300-3

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

4. Y camau nesaf .......... 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 17

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Bridgend Orthodontics, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 24 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod MyDentist, Bridgend Orthodontics yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i bob claf. Dywedodd pob claf a roddodd adborth ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis ei fod yn 'dda iawn/da'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd yr holl wybodaeth a oedd i'w gweld yn yr ardal aros ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi y gellid ei darparu yn Gymraeg, mewn Braille neu mewn print bras.
- Gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, ac roedd derbynfa ac ardal aros o faint priodol. Roedd pob rhan o'r practis yn ymddangos yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Roedd gan y practis asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân gorfodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion hefyd. Roedd pob un ohonynt o safon dda ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd gan y practis nifer sylweddol o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd pob un ohonynt yn gyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir yn MyDentist, Bridgend Orthodontics. Roedd rheolwr y practis yn ymroddedig iawn i'w rôl.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth o drefniadau llywodraethu da ac agweddau proffesiynol gan y staff.
- Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd cofnodion priodol yn cael eu cymryd o'r cyfarfodydd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd saith claf eu bod wedi bod yn gleifion yn y lleoliad ers dros ddwy flynedd, roedd 18 wedi bod yn gleifion am rhwng un a dwy flynedd ac roedd 15 wedi bod yn gleifion ers llai na blwyddyn

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

***"Tîm ardderchog - cyfeillgar a phroffesiynol iawn."***

***"Dim angen gwella - hapus iawn â'r gofal."***

## Cadw'n Iach

**Diogelu a Gwella Iechyd**
Gwelsom dystiolaeth o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Caiff y cleifion eu hannog i wisgo gorchudd wyneb o hyd ac mae masgiau glân ac uned hylendid dwylo ar gael yn ardal y dderbynfa i'r cleifion eu defnyddio. Caiff gwybodaeth am COVID-19 ei harddangos wrth y brif fynedfa a dywedodd y staff wrthym fod pob claf yn cael ei sgrinio am symptomau COVID-19 cyn ei apwyntiad.

Dywedodd 39 o'r cleifion fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach a dywedodd un claf nad oedd y tîm wedi gwneud hynny.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir o'r tu allan ac roedd yr oriau agor a'r rhif ffôn mewn argyfwng wedi'u harddangos hefyd.

## Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Roedd yn glir bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Roedd drysau pob deintyddfa yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau ac roedd pob deintyddfa wedi'i lleoli i ffwrdd o'r ardal aros.

Roedd prif orthodontydd y practis yn siarad Cymraeg a gwelsom ei fod yn gwisgo bathodyn ‘Iaith Gwaith’ i hysbysebu hyn. Caiff yr holl wybodaeth i gleifion yn yr ardal aros ei harddangos yn ddwyieithog. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi y gellid ei darparu yn Gymraeg, mewn Braille neu mewn print bras pe bai angen.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r lleoliad drwy'r bwrdd iechyd lleol.

Roedd y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn y ddwy ardal aros.

**Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos o amgylch y dderbynfa a'r ardaloedd aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Gwelsom fod gwybodaeth gynhwysfawr wedi'i harddangos i'r cleifion yn yr ardal aros, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer AGIC, rhestr prisiau'r practis a rhestr staff. Roedd oriau agor a rhif ffôn y practis ynghyd â rhif ffôn mewn argyfwng i'w gweld ar ddrws ffrynt y practis.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym mai anaml iawn yr oedd oedi yn y practis, ond pe byddai oedi, y byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion cyn eu hapwyntiad, gan ofyn iddynt ddod yn hwyrach os yn bosibl.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn, a dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn aml yn trefnu eu hapwyntiadau dilynol yn y dderbynfa cyn iddynt adael y practis.

Dywedodd 30 o'r cleifion wrthym ei bod hi'n ‘hawdd iawn’ cael apwyntiad pan oedd angen un a dywedodd 10 o gleifion wrthym ei bod hi'n ‘eithaf hawdd’.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dywedodd 37 o'r cleifion eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan dri chlaf.

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Caiff y staff eu hannog i ymgyfarwyddo â'r polisi a gwelsom dystiolaeth ei fod yn cael ei adolygu unwaith y flwyddyn gan reolwr y practis drwy system ar-lein y practis

**Hawliau pobl**

Gwelsom fod y practis yn hygyrch i unigolion â phroblemau symudedd. Dywedodd y staff wrthym fod ramp ar gael y gellir ei osod dros drothwy drws y fynedfa er mwyn i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn allu dod i mewn. Mae ardal aros fawr yn y practis hefyd, ac mae pob deintyddfa ar lawr gwaelod y lleoliad. Ar hyn o bryd, er bod toiled ar y llawr gwaelod, byddai'n anodd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn ei ddefnyddio, gan fod wal yn rhannu ardal y sinc a'r toiled. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cynlluniau ar waith i ddymchwel y wal sy'n gwahanu'r ddwy ystafell er mwyn sicrhau bod y toiled yn gwbl hygyrch.

**Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion a manylion AGIC.

Gwelsom y cofnodlyfr lle y byddai cwynion yn cael eu cofnodi, ond ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu gwneud. Dywedodd y staff wrthym y caiff arolygon adborth eu hanfon at bob claf ar ôl iddynt gwblhau eu triniaeth. Gall cleifion hefyd roi adborth ar-lein. Gwelsom dystiolaeth fod yr adborth, hyd yma, wedi bod yn gadarnhaol iawn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Roedd yn amlwg bod y practis mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus. Roedd maint a chynllun y practis hefyd yn addas ar gyfer nifer y cleifion sy'n cael eu trin. Gwelsom sawl claf yn yr ardal aros ac roedd digon o le rhyngddynt. Roedd hefyd ardal newid ac ystafell egwyl fawr ar gael i'w defnyddio gan y staff.

Nid oedd gennym unrhyw bryderon am amgylchedd y practis yn ystod ein hymweliad.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys diogelwch tân ac asesiad risg amgylcheddol. Roedd pob un yn gyfredol ac yn cael ei adolygu o fewn terfynau amser priodol.

**Atal a rheoli heintiau**
Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwelsom hefyd nifer o bolisïau ar waith o ran gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn y practis, yn ogystal ag asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr.

Gwelsom dystiolaeth fod gwahanol amserlenni glanhau ar waith a oedd yn cefnogi arferion glanhau effeithiol. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo effeithiol ym mhob rhan o'r practis hefyd.

**Rheoli meddyginiaethau**
Gwelsom dystiolaeth bod polisi cynhwysfawr ar waith gan y practis o ran sut i ymateb i argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd yr holl gyffuriau brys yn gyfredol ac yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r canllawiau lleol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal

i sicrhau bod cyflenwad digonol o gyffuriau a chyfarpar brys ar gael a'u bod yn ddiogel.

Roedd gan y practis gyfarpar dadebru digonol ar gael a gwelsom dystiolaeth fod tri swyddog cymorth cyntaf dynodedig yn y practis.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**
Cawsom dystysgrifau hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Roedd y manylion hyn hefyd i'w gweld ar hysbysfwrdd yn ystafell newid y staff.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod canllawiau diogelu cyfredol ar gael i bob aelod o'r staff eu gweld ar fewnrwyd y cwmni. Caiff y staff hefyd eu hysbysu am unrhyw newidiadau i bolisïau neu reoliadau.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a /neu wneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol, a gwelsom hefyd fod y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddiant y staff fod pob unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Roedd yn amlwg bod trefniadau ar waith gan y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y manylion hyn wedi'u dogfennu yn ei ddatganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Gwelsom dystiolaeth fod amrywiol archwiliadau wedi cael eu cwblhau yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad o gardiau cofnodion cleifion, archwiliad ymbelydredd, archwiliad atgyfeirio ac archwiliad WHTM01-05.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pump claf ac roedd pob un yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys dynodyddion cleifion, hylendid y geg, gwybodaeth am ddeiet a hanes meddygol y claf. Roedd pob cofnod a welsom hefyd yn cynnwys tystiolaeth fod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i roi ac roedd gan y practis bolisi cydsyniad priodol ar waith.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom dystiolaeth fod arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y lleoliad. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys pob maes sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Roedd pob un yn gyfredol ac wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod y staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf.

### Y Gweithlu

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cymryd o'r cyfarfodydd hynny. Dywedodd y staff wrthym y caiff cofnodion y cyfarfodydd eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn ardal y staff, ynghyd â thaflen i'w llofnodi ar ôl iddynt eu darllen.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff hefyd yn cael sesiynau goruchwylio clinigol rheolaidd a gynhelir gan y prif ddeintydd.

Dywedwyd wrthym hefyd am y broses sefydlu gadarn a ddefnyddir gan y practis ar gyfer aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi amrywiol drwy borth ar-lein y cwmni ac adolygiadau perfformiad rheolaidd drwy gydol y broses sefydlu.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Insert name

**Dyddiad yr arolygiad:** Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw welliannau** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Insert name**

**Dyddiad yr arolygiad:** **Insert date**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (priflythrennau):

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**